JENNIFER

Gwneud i eraill

(penderfyniad / dyfalbarhad / gweledigaeth)

Ychydig funudau ac yr oedd y ddau yn gyrru'n wyllt ar hyd y ffordd oedd yn arwain o'r dref. Yn ystod y dydd yn yr ysgol roedd y ddau wedi dweud wrth eu ffrindiau eu bod am ddwyn car o'r maes parcio y noson honno. Wedi saith, a'r rhan fwyaf o'r ceir wedi mynd a'r maes parcio'n eithaf gwag, cerddodd y ddau tuag at Audi A4 oedd wedi'i barcio o dan y coed. Doedd dim siw na miw yn unman. Cyn pen dim roedden nhw wedi llwyddo a dyna lle roedden nhw'n gyrru'n ofalus o'r maes parcio rhag ofn i rywun eu gweld yn gyrru'n wyllt. Ond ar ôl gadael y rhan brysur o'r dref roedd y ddau ar eu ffordd...

"Mi awn ni heibio'r ganolfan chwarae ac wedyn ymlaen ar hyd y ffordd ddeuol," meddai Ben oedd wrth y llyw.

Roedd y ganolfan chwaraeon ar gwr y dref. Roedd hi'n bryd rhoi troed i lawr rhag ofn i rywun eu hadnabod. Fel roedden nhw'n dod at y tro wrth ymyl y ganolfan, a'r car yn gwneud dros saith deg dyma Ben yn colli rheolaeth ar y llyw.

Sgrechiodd Jason, "Mae rhywun yn cerdded ar ochr y ffordd. Gwylia..." ond roedd hi'n rhy hwyr. Roedd y car wedi sgrialu dros y palmant a tharo yn erbyn y gwrych. Daeth Ben a Jason allan o'r car yn ddianaf ac wrth iddyn nhw ddechrau rhedeg i ffwrdd gwelsant yng ngolau'r car fod merch ifanc wedi'i tharo ac yn gorwedd ar lawr yn griddfan. Doedd dim amdani ond mynd nerth eu coesau dros y caeau.

Rai munudau'n ddiweddarach roedd seiren ambiwlans a cheir plismyn yn diasbedain i awyr y nos. "Mae hi'n fyw!" gwaeddodd un o'r dynion ambiwlans." Fuon nhw fawr o dro yn ei rhoi ar y gwely yn yr ambiwlans a'i rhuthro i'r ysbyty.

Am bythefnos gyfan bu Jennifer yn anymwybodol. Ar ôl iddi ddod ati'i hun daeth tri meddyg i'w gweld. "Mae gynnon ni newydd da a newydd drwg i chi," meddai'r hynaf o'r tri wrthi. "Mi ddechreuwn ni efo'r newydd da. Peidiwch â phoeni, mi fyddwch chi'n gallu cerdded ond y newydd drwg ydi mi fydd yn cymryd dwy neu dair blynedd i fedru cerdded yn iawn." Drwy'r pnawn roedd geiriau'r meddyg yn troelli yn ei meddwl, "Dwy neu dair blynedd".

Daeth pyliau o ddigalondid drosti. Pan ddaeth ei rhieni a'i theulu i'w gweld y noson honno roedd Jennifer â'i phen yn ei phlu.

Gofynnodd ei mam iddi'n blwmp ac yn blaen, "Beth sy'n bod heno? Wyt ti wedi cael newydd drwg?" Agorodd Jennifer ei chalon i'w theulu. "Gwranda di rŵan," meddai'i nain oedd bob amser yn gweld yr ochr olau i bopeth, "Mi fyddi di'n siŵr o fedru cerdded yn gynt o lawer na mae'r meddygon yma'n ei ddweud." Cytunodd pawb.

Mi roedd yna dipyn o gryfder ei nain yn perthyn iddi hithau hefyd. Ymhen rhai dyddiau gadawodd yr ysbyty ac ymhen mis roedd hi yn ôl yn yr ysgol. Bob pnawn Mercher a phnawn Gwener byddai'n mynd i weld ffisio i'r ysbyty. Yr un fyddai'r stori bob pnawn Gwener. "Mi rwyt ti'n dod yn dy flaen yn ardderchog." Fel roedd y misoedd yn mynd yn eu blaen roedd Jennifer yn cryfhau ac yn gwella o ddydd i ddydd.

"Dydw i ddim yn credu fod pobl yn sylweddoli gymaint o waith da mae'r ysbytai yn ei wneud. Edrychwch ar y gofal rydw i wedi'i gael. Mi rydw i'n mynd i ddechrau casglu arian tuag at Ysbyty Glan Clwyd," meddai.

Doedd dim diwedd ar egni a dyfalbarhad Jennifer. Gweithiai'n galed yn yr ysgol i baratoi ar gyfer ei harholiadau. Wedyn roedd yn rhaid ymarfer a dysgu cerdded unwaith yn rhagor a phob munud sbâr byddai'n casglu arian a threfnu pob math o ddigwyddiadau i godi mwy o arian. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd wedi casglu £11,300.

Pan dderbyniodd yr ysbyty y siec gan Jennifer, meddai un o'r meddygon oedd wedi gofalu amdani, "Wel, dyma ferch arbennig, nid yn unig mae hi wedi helpu ei hun ond mae hi hefyd wedi helpu eraill." Ar 10 Mawrth 1986 derbyniodd Jennifer wobr arbennig Ross McWhiter i bobl ifanc.

Adnod: "Pa beth bynnag y dymunwch i eraill ei wneud i chwi, gwnewch chwithau felly iddynt hwy..." Mathew 7:12

Gweddi: O Dduw, wnei di helpu y rhai hynny sy'n mynd allan o'u ffordd i niweidio a pheryglu bywydau pobl eraill. Amen.

Trafod:

- Pam nad ydi'r awdur wedi manylu ar yr hyn ddigwyddodd i Ben a Jason ac wedi cofio amdanyn nhw yn y weddi?
- Sut fyddech chi'n disgrifio cymeriad Jennifer?